

# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2016

<b>YN BRESENNOL:</b>	Mr. Bob Parry OBE (Cadeirydd) Mr. D.R. Hughes (Is-gadeirydd)
	Y Mri. John Griffith, D R Hughes, Cyngorydd R.Meirion Jones, R G Parry OBE a Alwyn Rowlands
	Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn Mr. T.Ll. Hughes – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn
<b>WRTH LAW:</b>	Y Trysorydd.
	<b>Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swydd gyda CSYM)</b>
	Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Mri. Carwyn Jones, Ieuan Williams.
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Cynrychiolwyr o'r 2 sefydliad a wahoddwyd i fynychu mewn perthynas â'u ceisiadau am grant.

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd Mr. R. Meirion Jones ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas â cheisiadau grant gan Gwmni'r Frân Wen a'r Eisteddfod Genedlaethol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau hynny.

Datganodd Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn – ddiddordeb personol a rhagfarnus yn y ceisiadau grant gan yr Eisteddfod Genedlaethol a Menter Gymdeithasol Llangefni a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau hynny.

### 2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**“Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

### 3 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2016/17

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor, yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2016, wedi gofyn am gyflwyniad gan 2 o'r 4 sefydliad a oedd wedi cyflwyno ceisiadau am grant ynghylch materion yr oedd y Pwyllgor wedi eu codi.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y ddau sefydliad.

Yn dilyn trafodaethau manwl, **PENDERFYNWYD argymhell i'r Ymddiriedolaeth Elusenol yn ei gyfarfod i'w gynnal ar 15 Mawrth, 2016 :-**

- Y dylid cefnogi'r 4 cais am grant a dderbyniwyd;
- Bod y Trysorydd yn cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gyda'r swm a argymhellir fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Adfywio;
- Na fydd ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau, sef 10 Chwefror, 2016, yn cael eu hystyried.

**Mr. Bob Parry OBE**  
**Cadeirydd**